# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Ionawr 21ain 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Polisi Iechyd Diogelwch a Llesiant** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi Iechyd Diogelwch a Llesiant newydd

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r polisi hwn yn ofyniad cyfreithiol yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Mae'r polisi cyfredol yn dyddio nôl i 2015 ac felly roedd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu trefniadau presennol y Cyngor.

Mae derbyn cymeradwyaeth y Cabinet yn arddangos ymrwymiad strategol yn y maes pwysig hwn.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae gwaith i adolygu'r polisi hwn wedi bod ar droed ers rhai misoedd, ac yn wir, mae'n ofyniad cyfreithiol i'w adolygu'n rheolaidd. Gan fod adolygiad rheolaethol wedi ei gynnal yn gorfforaethol tros y misoedd diwethaf, roedd yn synhwyrol aros am gadarnhad o'r strwythur newydd cyn ymgynghori yn derfynol gyda Swyddogion, yr Undebau a'r aelodau etholedig hynny sy'n eistedd ar y Panel Iechyd a Diogelwch, er mwyn sicrhau fod y polisi newydd yn cyd-fynd, ac yn adlewyrchu'r strwythur rheolaethol newydd.

Wedi derbyn ac ymgorffori rhai sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r prif newidiadau yn cynnwys:

- Diffinio cyfrifoldebau Penaethiaid Adran a Rheolwyr, ac egluro rôl y Penaethiaid Cynorthwyol ac Arweinyddion Tîm yn eu cynorthwyo yn y rolau hyn.
- Ail strwythuro'r Polisi fel bod cyfrifoldebau staff yn glir ar ddechrau'r Polisi yn hytrach nac wedi eu colli yng nghanol y ddogfen.
- Gwahaniaethu rhwng cyfrifoldebau'r Cabinet ac aelodau etholedig eraill
- Plethu egwyddorion Ffordd Gwynedd i bob lefel o gyfrifoldeb o fewn y Cyngor.

- Cadarnhau a chryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol.
- Sicrhau fod geiriad y Polisi yn ddigonol i anghenion rhai achrediadau ISO (Sefydliad Safoni Rhyngwladol) sydd yn allweddol i rai Adrannau.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Byddai cymeradwyaeth y Cabinet yn help i ddatblygu model rheolaethol o fewn y Cyngor ble fo Rheolwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am safonau diogelwch i staff a'r cyhoedd, ynghyd ag iechyd a llesiant staff o fewn eu Gwasanaethau.

Nid oes unrhyw wrthwynebiadau wedi cyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori.

Mae asesiad cydraddoldeb wedi ei gynnal ar effaith y polisi arfaethedig, ac nid oed unrhyw asesiad negyddol wedi ei ganfod. Yn wir, mae'r polisi yn cael gam positif i nifer o unigolion sydd hefo nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Ar sail fod y polisi yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet, bydd gofyn i'r Arweinydd ynghyd a'r Prif Weithredwr ei arwyddo, a bydd gwaith yn mynd rhagddo yn syth i gyfathrebu'r polisi newydd ar draws gweithlu'r Cyngor, a chodi ymwybyddiaeth staff o bob lefel ynglŷn â'u cyfrifoldebau.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r polisi wedi ei rannu gyda'r Prif Weithredwr, Penaethiaid Adran a holl aelodau'r Panel Iechyd Diogelwch a Llesiant sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr Undebau Llafur, ac aelodau y Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fel rhan o broses ymgynghori.

Roedd y prif sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Dyhead fod y polisi yn cydfynd â strwythur rheolaethol newydd y Cyngor. Oherwydd hyn, penderfynwyd dal y polisi yn ôl hyd nes fod y strwythur rheolaethol wedi ei gyhoeddi er mwyn gallu ei adlewyrchu.
- Cais i gryfhau yr ymrwymiad cyffredinol tuagat iechyd a diogelwch y tu hwnt i gydymffurfio gyda isafswm lefel y gyfraith i anelu at welliant parhaus, ac mae'r newid hwn wedi ei ymgorffori.
- Nodwyd fod peth son am reoli contractwyr yn y ddogfen, a derbyniwyd cais i Adrannau gael canllaw ar y mater yma, a bydd gwaith yn digwydd i adolygu ein canllawiau presennol ar hyn tros y misoedd nesaf.
- Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr Undebau Llafur

Sylwadau ar ran y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr adroddiad:

"*Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.'*

Sylwadau y Swyddog Monitro:

*"Fel sydd wedi ei nodi o fewn yr adroddiad, mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i fabwysiadu ac adolygu Polisi Iechyd a Diogelwch. Mae hefyd gofynion penodol ynglŷn â chynnwys a chyfrifoldebau o fewn y polisi. Mae'r polisi yn cyfarch y materion hyn ac mae proses gynhwysol wedi ei ymgymryd o ran ymgynghori oedd yn cynnwys yr undebau llafur."*